Rhifyn 2

Newyddion Diweddaraf y Dwyrain



NEWYDDION DIWEDDARAF Y DWYRAIN

Eich Plant. Dyfodol Caerdydd.

## Helo

Croeso i ail rifyn Newyddion Diweddaraf y Dwyrain, y cylchlythyr sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am y newidiadau sy'n effeithio ar ysgolion yn eich ardal chi.

Rydym wedi ymrwymo i wella safonau addysgol ar gyfer eich plentyn, drwy gynnig y cyfleoedd gorau, yn yr amgylchedd addysgu gorau posibl.

Beth bynnag fo cryfderau eich plentyn, rydyn ni am roi'r dechrau gorau posibl i bob disgybl i'w helpu i gyflawni'r hyn a fynno.

Mae llawer o bethau i'w hadrodd ers y cylchlythyr diwethaf, felly rydym yn gobeithio y bydd y rhifyn hwn yn ganllaw defnyddiol i'r newidiadau sydd ar waith o ran addysg eich plant o fis Medi 2013.

## Y penawdau diweddaraf - Mwy o fanylion yn y llyfryn

- **Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru** – Bydd y Gweinidog Leighton Andrews AC yn gorchymyn Cyngor Caerdydd i gau Ysgol Uwchradd Llanrhymni ym mis Awst 2013. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror/Mawrth 2013.
- **Enw newydd** – Ysgol Uwchradd y Dwyrain oedd yr hoff ddewis ar gyfer yr ysgol newydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr enw a'r dewisiadau o ran y wisg ysgol yn ôl ym mis Ebrill gyda rhieni, disgyblion, athrawon a llywodraethwyr.
- **Y wisg ysgol newydd** – bydd ar gael cyn dechrau'r tymor newydd ym mis Medi, a bydd yr ysgolion yn talu amdani. Bydd pob disgybl yn cael un wisg ysgol (heblaw am esgidiau) ac un cit Addysg Gorfforol yr un.
- **Yn nigwyddiad Blwyddyn 9** ym mis Mawrth cafodd disgyblion o Lanrhymni a Thredelerch gyfle i holi cwestiynau a mynegi eu barn wrth yr athrawon am y newidiadau i'w hysgolion.
- **Penodi pennaeth i arwain yr ysgol newydd** – Penodwyd Ms Karen Gittins yn Bennaeth ar Ysgol Uwchradd y Dwyrain, a fydd yn agor ym mis Medi 2014. Bydd Ysgol Uwchradd Tredelerch yn aros ar agor tan 31 Awst 2014, ond bydd yn cael enw newydd, sef Ysgol Uwchradd y Dwyrain, o fis Medi 2013.
- **Safle'r ysgol newydd** – Bydd adroddiad ar y safleoedd ar y rhestr fer yn cael ei roi gerbron Cabinet y Cyngor yn ddiweddarach yn ystod y tymor. Y Cabinet fydd yn penderfynu pa safleoedd ar y rhestr fer a gaiff eu cynnwys mewn ymgynghoriad cymunedol sydd i'w gynnal yn ddiweddarach.

Arwain Caerdydd
**Adeiladu Cymunedau**

CARDIFF
CAERDYDD

# Penderfyniad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol Ysgol Uwchradd Llanrhymni

Ar 15 Mai cyhoeddodd Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews AC, y byddai'n cyflwyno gorchymyn ffurfiol i'r Cyngor i gau Ysgol Uwchradd Llanrhymni ym mis Awst 2013.

Anfonwyd llythyr dyddiedig 15 Mai at bob un ohonoch yn cadarnhau'r cyhoeddiad hwn.

Cyn ymgynghoriad y Gweinidog, roeddem eisoes wedi cynllunio i gau Ysgolion Uwchradd Llanrhymni a Thredelerch a'u disodli gydag ysgol uwchradd fodern yn nwyrain y ddinas.

Ni fydd cau Ysgol Uwchradd Llanrhymni ym mis Awst yn newid y cynlluniau oedd gennym i symud holl ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llanrhymni i safle Ysgol Uwchradd Tredelerch o fis Medi, gyda buddsoddiad sylweddol yn adeiladau'r ysgol ac enw newydd i'r ysgol, sef Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Bydd yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn gwisgo gwisg newydd o fis Medi 2013.

Yn dechnegol bydd Ysgol Uwchradd Tredelerch yn cau ym mis Awst 2014. Caiff Ysgol Uwchradd y Dwyrain ei sefydlu ar safle Tredelerch o fis Medi 2014, nes y gellir codi ysgol newydd ar safle addas. Y gobaith yw y bydd yr ysgol newydd sbon, a fydd yn cynnwys darpariaeth ôl-16, yn agor ar ei safle parhaol ym mis Medi 2016.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn bo hir gyda mwy o fanylion am y broses dderbyn ar gyfer disgyblion newydd a fydd yn dod i flwyddyn 7 a'r trefniadau ar gyfer symud disgyblion presennol a chasglu'r wisg newydd.

Yn y cyfamser, hoffem eich sicrhau bod cynlluniau manwl ar waith i gefnogi'ch plant ym mis Medi. Ymhlith y cynlluniau hyn mae symud staff addysgu a staff cymorth o Lanrhymni i Ysgol Uwchradd Tredelerch dan yr enw newydd, sef Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

## Dechrau newydd

Mae eich barn yn bwysig i ni, a gyda'r holl newidiadau cyffrous ar y gweill yn yr ardal mae'n hanfodol bod cymunedau lleol yn cael cyfle i fynegi eu barn a chynnig awgrymiadau.

Ym mis Ebrill, cynhaliom arolwg i geisio eich barn ar enw'r ysgol newydd a pha fath o wisg ysgol fyddai orau gennych.

Cawsom ymateb calonogol, gyda 744 o ddisgyblion, rhieni, athrawon a Llywodraethwyr yn cysylltu â ni. Diolch yn fawr!

Mae'r corff llywodraethu dros dro wedi penderfynu mai 'Ysgol Uwchradd y Dwyrain' fydd enw'r ysgol newydd. Yn gyffredinol, hwn oedd eich hoff enw yn ôl yr ymgynghoriad, a dyma'r enw y bydd corff llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tredelerch yn ei ddefnyddio o fis Medi ymlaen.





Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

# Y wisg ysgol

Mae'r wisg ysgol yn bwnc llosg i'r plant, gan eu bod yn treulio mwy o amser yn eu gwisg ysgol nag yn eu dillad eu hunain, ac felly mae'n bwysig ein bod ni'n dewis yn ddoeth.

Mae cyfforddusrwydd, steil, cost a gwydnwch yn bwysig, a chwaraeodd y ffactorau hyn i gyd ran bwysig iawn wrth ddewis y wisg. Mae'r wisg hefyd yn cynrychioli diwylliant ac ethos Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Yn yr ymgynghoriad ac yng ngweithdy Blwyddyn 9 roedd llawer o wahaniaeth barn ar y wisg ysgol. Roedd dros hanner o blaid blaseri ac yn gyffredinol, du oedd yr hoff liw.



Mae'r cyrff llywodraethu wedi cytuno ar y wisg ganlynol:

| Gwisg y bechgyn | Gwisg y merched |
|---|---|
| Blaser ddu | Blaser ddu |
| Crys gwyn | Crys gwyn neu flows wen |
| Tei | Tei |
| Siwmper ddu â gwddf 'V' | Siwmper ddu â gwddf 'V' |
| Trowsus du | Sgert neu drowsus du |
| Esgidiau du | Esgidiau du |

Bydd yr ysgol yn talu am un wisg ysgol i bob disgybl (heblaw am esgidiau) ac un cit Addysg Gorfforol (heblaw am esgidiau ymarfer) ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

Bydd lliw tei'r ysgol yn dibynnu ar logo a bathodyn yr ysgol, sy'n cael eu dylunio ar hyn o bryd. Bydd disgyblion o'r ddwy ysgol yn cymryd rhan yn y gwaith o gytuno ar y lliwiau a'r dyluniadau, pan fyddan nhw'n barod.

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn uniongyrchol i roi gwybod i chi pan fydd y wisg yn barod a sut y gallwch ei chasglu. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn yr wythnos sy'n dechrau ar 2 Medi 2013.

# Darpariaeth Blwyddyn 10 ac 11 ym mis Medi 2013

Roedd mwy o ddewisiadau o ran pynciau ar gael i fyfyrwyr blwyddyn 9 yn y ddwy ysgol eleni, sef:

- y cyrsiau a gynigir yn y ddwy ysgol uwchradd
- y cyrsiau galwedigaethol a gynigir gan bartneriaeth 14-19 ysgolion y Dwyrain.

Roedd y disgyblion a fydd yn dechrau ar eu pynciau newydd ym mis Medi yn gallu dewis o blith yr holl bynciau a gynigir gan y ddwy ysgol. Croesawyd hyn gan y disgyblion, gan ei fod yn golygu mwy o ddewis o blith amrywiaeth eang o bynciau a chyrsiau galwedigaethol.

Mae'r disgyblion wedi dewis eu pynciau ar gyfer y flwyddyn nesaf erbyn hyn. Mewn nifer fach o achosion pan fo diffyg yn y galw yn golygu na fyddai modd cynnal rhai cyrsiau, cynigiwyd opsiynau eraill i'r disgyblion.

Rydym wrthi'n trafod y posibilrwydd o sicrhau arian i gynnal cyrsiau galwedigaethol yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd mwy o fanylion am y cyrsiau hyn ar gael maes o law.

Os yw eich mab neu ferch eisoes ym mlwyddyn 10 ac wedi bod yn dilyn cyrsiau TGAU yn Ysgol Uwchradd Llanrhymni neu Ysgol Uwchradd Tredelerch, gall barhau â'r pynciau y mae'n eu hastudio ym mis Medi, ond efallai nid gyda'r un athro.



Y DIWEDDARAF AM YSGOL Y DWYRAIN

# Gwneud ffrindiau

Roedd gweithdy blwyddyn 9 yn un o blith nifer o digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer y misoedd i ddod, sy'n dod â disgyblion y ddwy ysgol at ei gilydd. Roedd yn gyfle ardderchog i ddisgyblion ddod i adnabod ei gilydd, rhannu eu pryderon a chael cyfle i holi cwestiynau.

Mae'n gwbl naturiol bod disgyblion yn bryderus ynghylch y newidiadau sydd ar y gweill yn eu hysgolion, ac rydyn ni'n awyddus i roi sicrwydd iddynt a'u helpu i edrych ymlaen at y dyfodol. Dyma fraslun o'r hyn a ddywedwyd gan rai disgyblion o'r ddwy ysgol:

*"O ystyried y byddwn ni i gyd gyda'n gilydd y flwyddyn nesaf mae'n syniad da ein bod wedi cael cyfle i gyfarfod heddiw."*

*"Rydw i'n adnabod llawer o bobl o Lanrhymni. Roedd y gêm gyda'r gwellt a gafwyd yn y bore yn dda. Rydw i'n edrych ymlaen at weld yr holl fechgyn o Lanrhymni yn dod draw a chael bod gyda nhw gan fy mod i'n eu hadnabod yn barod. Rydw i'n edrych ymlaen at gyfarfod athrawon newydd hefyd, dydw i ddim yn nerfus."*

*"Mae hi wedi bod yn dda cael cwrdd â phobl o wahanol ysgolion, ac rydw i'n teimlo bod pobl wedi gwrando ar yr hyn yr oedd gennym i'w ddweud."*

*"Mae heddiw wedi bod yn gyfle da i gwrdd â gwahanol bobl o ysgolion eraill."*



## Helpu disgyblion i ddod i adnabod ei gilydd...

Mae meithrin perthnasoedd rhwng disgyblion y ddwy ysgol yn bwysig dros ben. Bydd gweld wynebau cyfarwydd ar ddechrau tymor newydd yn gwneud pethau'n haws i ddisgyblion y ddwy ysgol.

Mae ein tîm amlasiantaethol eang, sy'n cynnwys cymorth gan bartneriaid o'r trydydd sector yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, yn ymrwymedig i roi cefnogaeth i chi a'ch plant drwy'r newid. Gyda'n gilydd rydym wedi llunio nifer o wahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau i'w cynnal dros y misoedd nesaf. Bydd y digwyddiadau yn helpu gyda'r broses o feithrin cyfeillgarwch a dod i adnabod athrawon ac yn helpu'r disgyblion i ymgyfarwyddo â chynllun newydd safle Ysgol Uwchradd Tredelerch yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd llawer o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal yn yr ysgol, a bydd llawer yn digwydd y tu allan i oriau ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Dyma rai o'r gweithgareddau:

- **Gemau Olympaidd Trefol** - ar ddiwedd mis Mehefin bydd tîm o ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Llanrhymni ac Ysgol Uwchradd Tredelerch yn dod at ei gilydd i gystadlu fel un tîm yn y digwyddiad chwaraeon hwn a gynhelir ledled Caerdydd.
- **Gweithdai Creadigol** - yn ystod tymor yr haf bydd disgyblion y ddwy ysgol yn dod ynghyd i ddysgu dawnsio, cerddoriaeth, drama a chelf.
- **Cydlyniad Cymunedol** - Mae rhaglen Mentora Cyfoedion a Chyfryngu wedi'i llunio i gefnogi staff a grwpiau sy'n agored i niwed yn y ddwy ysgol. Bydd y cymorth ar gael cyn yr haf a thrwy gydol y flwyddyn.
- **Ymweliadau Safle** - bydd cyfle i ddisgyblion ymgyfarwyddo â chynllun safle Tredelerch a chwrdd â'r athrawon yn ystod tymor yr haf.
- **Nosweithiau Rhieni** - yn ystod tymor yr haf bydd rhieni a gofalwyr yn cael gwahoddiad i ymweld â'r safle, edrych o gwmpas yr ysgol, sgwrsio gyda'r staff a holi cwestiynau.

Cewch fwy o fanylion am y digwyddiadau hyn gan ysgol eich plentyn cyn bo hir.

### Cynllun cyfeillio ym mis Medi

O fis Medi ymlaen, bydd eich mab neu ferch yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

I sicrhau eu bod yn ymgartrefu yn yr ysgol cyn gynted â phosibl, bydd 'Cynllun Cyfeillio' ar waith o fis Medi.

Mae'r cynllun yn golygu y bydd pob disgybl newydd yn cael 'cyfaill' sydd eisoes yn adnabod yr ysgol yn dda. Bydd y 'cyfaill' yn rhywun y gall y disgybl ymddiried ynddo ac sy'n gallu ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddo.

# Partneriaeth Gwella Addysg – Newyddion Diweddaraf

Mae'r Bartneriaeth Gwella Addysg yn parhau i wneud cynnydd o ran codi safonau addysg yn yr ysgolion yn eich ardal chi.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr o blith y gwasanaethau Iechyd, y Cyngor, yr Heddlu, Dechrau'n Deg a darparwyr addysg ôl-16. Bydd y bartneriaeth yn penderfynu ar y dull gorau o ddefnyddio sgiliau'r holl aelodau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran sicrhau bod eich plant chi yn cael addysg a chymorth o safon, gan roi llwyfan hanfodol iddynt gyflawni eu huchelgais a'u breuddwydion yn y dyfodol.

Mae dau gynllun i wella Llythrennedd ac Ymgysylltiad Teuluol yn eich ardal chi wrthi'n cael eu trafod.

Bydd y bartneriaeth yn gweithio ar nifer o fentrau cymunedol hefyd, yn cynnwys:

- Tîm Ymyrraeth Gynnar – yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Plant
- Grŵp Rheoli Cymdogaethau

Bydd y newyddion diweddaraf am y gwaith ar gael yn rhifyn nesaf y cylchlythyr.

# Penodi Karen Gittins yn Bennaeth ar Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Penodwyd pennaeth sydd â phrofiad o godi safonau a goruchwylio ysgolion newydd i arwain Ysgol Uwchradd y Dwyrain, a gaiff ei hagor ym mis Medi 2014.

Roedd ymgeiswyr y swydd hon o'r radd flaenaf, ond ar ôl ystyried yn ofalus, penodwyd Ms Karen Gittins i'r swydd.

Ar hyn o bryd mae Ms Gittins yn Bennaeth Gweithredol ar Ffederasiwn Gainsborough, sy'n gyfrifol am ddwy ysgol yn Swydd Lincoln – sef Aegir Community School a Warren Wood Community School.

Mae Mrs Gittins yn dod o Ogledd Cymru yn wreiddiol, ond mae hi'n gyfarwydd â'r ddinas gan iddi ddilyn cwrs BA ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ganddi brofiad helaeth o godi safonau, datblygu potensial arweinwyr, rheoli ymddygiad yn gadarnhaol, monitro effeithiol ac asesu.

Dywedodd Mrs Gittins *"Rwyf wrth fy modd o gael dod yn ôl adref i Gymru i arwain Ysgol Uwchradd y Dwyrain a fydd yn chwarae rôl sylweddol iawn o ran trawsnewid y ddarpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr a'r gymuned ehangach yn Nwyrain Caerdydd.*



*Edrychaf ymlaen at weithio gyda myfyrwyr, staff, rhieni a phartneriaid amrywiol i lunio'r ddarpariaeth i wella safonau wrth i ni baratoi ar gyfer amgylchedd dysgu newydd pwrpasol a fydd yn gyfleuster o'r radd flaenaf yn y ddinas."*

Bydd Ms Gittins yn dechrau yn ei rôl ym mis Medi i baratoi ar gyfer agor yr ysgol newydd dan ei harweinyddiaeth ym mis Medi 2014. Bydd Ms Gittins yn gweithio gyda phennaeth Ysgol Tredelerch, Gareth Cooke, a fydd yn parhau i reoli ei ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod.

Dywedodd Mr Cooke *"Rwyf fi a'r uwch dîm rheoli yn edrych ymlaen at groesawu Ms Gittins i ddatblygu'r Bartneriaeth Gwella Addysg a sicrhau adeiladau ysgol newydd sbon ar gyfer ein disgyblion yn 2016."*

Byddwn yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf i chi am gynnydd dros yr ychydig fisoedd nesaf.

CARDIFF YOUTH SERVICE
GWASANAETH IEUENCTID CAERDYDD

# Canolfannau Ieuenctid ar garreg eich drws

Weithiau, mae chwilio am rywle i fynd i gael ychydig o hwyl yn gallu bod yn anodd i bobl ifanc, ond yn nwyrain y ddinas mae detholiad o ganolfannau ieuenctid ar garreg eich drws.

Mae tair canolfan ieuenctid yn y cymunedau yn nwyrain y Ddinas, pob un gyda rhaglenni gweithgareddau a chymorth pwrpasol i bobl ifanc 11 – 18 oed.

Gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr wythnos, mae Gweithwyr Ieuenctid yno i wneud mwy na threfnu gweithgareddau y mae pobl ifanc am gymryd rhan ynddynt. Maen nhw hefyd yn rhoi gwybodaeth, cymorth a chyfarwyddyd ar feysydd fel addysg, hyfforddiant, iechyd, cydberthnasau, camddefnyddio sylweddau ac yn cynnig cymorth emosiynol i bobl ifanc.

Am fwy o fanylion codwch y ffôn neu galwch heibio i un o'ch canolfannau ieuenctid lleol:

- **Canolfan Ieuenctid Llanrhymni** - Ball Road, Llanrhymni, CF3 9YW. 029 2077 8931
- **Canolfan Ieuenctid Tredelerch** - Llansteffan Road, Tredelerch, CF3 3JA. 029 2077 9365
- **Canolfan Ieuenctid Llaneirwg** - Crickhowell Road, Llaneirwg, CF3 0EF. 029 2077 8667

Mae pob canolfan yn cynnig amgylchedd cynnes, diogel a chroesawgar i bobl ifanc. Ceir rhagor o wybodaeth yn **www.caerdydd.gov.uk/ieuenctid**



## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os hoffech fynegi eich barn i ni, cysylltwch â ni'n uniongyrchol a gwnawn ein gorau i'ch ateb. Gallwch ffonio 029 2087 2720 neu e-bostio **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter **@CyngorCaerdydd** am holl newyddion diweddaraf y Cyngor. Hefyd, mae mwy o wybodaeth ar gael yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall. Cysylltwch â ni ar y rhif uchod neu drwy e-bost a byddwn yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar eich rhan.

**www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**



Arwain Caerdydd
**Adeiladu Cymunedau**